

Amodau Gweithredwyr Llogi Preifat

Cyflwyniad

Mae'r amodau hyn yn berthnasol i weithredwyr llogi preifat.

Mae pob cyfeiriad at "Gweithredwr" yn yr amodau hyn isod yn golygu person sydd â thrwydded i weithredu cerbydau llogi preifat a roddwyd yn unol ag Adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Mae 'Awdurdod Trwyddedu' yn cyfeirio at Gyngor Bro Morgannwg.

Mae gan 'swyddog awdurdodedig' yr un ystyr ag sydd iddo yn Adran 80 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

Ystyrir bod unrhyw ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i weithredu trwydded gweithredwr llogi preifat yn amodau'r drwydded, p'un a ydynt wedi'u rhestru'n benodol isod neu yn y polisi ai peidio.

1. Cyffredinol

- 1.1 Rhaid i'r gweithredwr gynnal gwiriadau digonol i fodloni ei hun mai dim ond gyrrwr addas sy'n cael eu defnyddio (ac yn parhau i gael eu defnyddio) yn ystod eu busnes. Bydd hyn yn cynnwys gwirio trwydded gyrrwr cerbyd hacni/llogi preifat pob gyrrwr a chael copi ohoni cyn i'r gyrrwr hwnnw drefnu unrhyw deithiau. Gellir cwestiynu addasrwydd a phriodoldeb y gweithredwr os bydd yn methu â sicrhau bod yr holl wiriadau priodol wedi'u cynnal. Hefyd gellir cwestiynu addasrwydd a phriodoldeb y gweithredwr os bydd yn methu â chymryd camau priodol yn erbyn gyrrwr sy'n torri'n gyson amodau ei drwydded.
- 1.2 Rhaid i weithredwr roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw yrrwr y mae wedi'i ddiswyddo a'r rhesymau dros ei ddiswyddo o fewn **48 awr** i'r diswyddo.
- 1.3 Rhaid i'r Gweithredwr roi gwybod i'r Swyddfa Drwyddedu, yn ysgrifenedig, o fewn **5 diwrnod gwaith** os bydd ef, unrhyw gyfarwyddwr cwmni, neu unrhyw unigolyn a enwir ar y ffurflen gais:
 - a) yn newid ei gyfeiriad cartref
 - b) yn newid unrhyw un o'u manylion cyswllt e.e. rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
 - c) os bydd unrhyw gwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn newid ei swyddfa gofrestredig
 - d) os caiff unrhyw newidiadau eu gwneud i berchnogaeth/rheolaeth/partneriaeth y gweithrediad fel y nodir yn eich ffurflen gais. Bydd angen i berchnogion newydd neu bartneriaid ychwanegol gael gwiriad sylfaenol gan y GDG. Ni chaiff y broses o drosglwyddo trwydded y gweithredwr ei chwblhau nes y bydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn copi o'r gwiriad.
 - e) Os na fydd cyfarwyddwr neu berson â chyfrifoldeb a enwebwyd yn parhau i gael ei gyflogi yn y cyswllt hwn
- 1.4 Rhaid i'r gweithredwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu os yw ef neu'r person sy'n rhedeg y busnes yn mynd i fod yn absennol o redeg y busnes o ddydd i ddydd am gyfnod o 2 fis yn olynol. Wrth wneud hyn, rhaid i'r gweithredwr roi enw'r person a fydd yn gyfrifol am redeg y busnes ar ei ran yn ystod y cyfnod dros dro hwn.

- 1.5 Rhaid i'r Gweithredwr beidio â defnyddio, na hwyluso'r defnydd o, unrhyw feddalwedd, technoleg neu ddyfais arall sy'n gallu rhwystro gweithgareddau cyfreithlon asiantaethau gorfodi neu weithgarwch rheoleiddio'r Awdurdod Trwyddedu.

2. System gwynion

- 2.1 Rhaid i Weithredwyr Llogi Preifat neu gynrychiolydd a benodwyd o'r busnes ddechrau ymchwiliad i unrhyw gŵyn a dderbynnir gan y cyhoedd o fewn 48 awr i dderbyn y gŵyn.
- 2.2 Rhaid i'r gweithredwr gadw cofrestr o gwynion (digidol neu gopi caled), a rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol:
- a) Enw a chyfeiriad/cyfeiriad e-bost yr achwynydd
 - b) Manylion yr achwynydd
 - c) Amser a dyddiad y digwyddiad honedig
 - d) Amser a dyddiad y derbyniwyd y gŵyn gan y gweithredwr
 - e) Sut y derbyniwyd y gŵyn e.e. ffôn, e-bost ac ati.
 - f) Enw'r person a dderbyniodd y gŵyn.
 - g) Enw'r cyflawnwr honedig
 - h) Os cafodd y gŵyn ei chyfeirio at yr Awdurdod Trwyddedu – yr amser a'r dyddiad y cafodd ei chyfeirio a gan bwy.
 - i) Manylion y camau a gymerwyd i ddatrys y gŵyn a gan bwy
 - j) Dyddiad y cafodd y gŵyn ei datrys
- 2.3 Rhaid i gopi o'r gofrestr gwynion fod ar gael i'w archwilio ar gais swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu. Rhaid cadw'r cofnodion am 6 mis.
- 2.4 Ar ôl derbyn cwyn am yrrwr trwyddedig, rhaid i'r gweithredwr roi gwybod yn syth i'r achwynydd am ei hawl i gyfeirio ei gŵyn at yr Awdurdod Trwyddedu.
- 2.5 Rhaid i'r Gweithredwr sicrhau bod manylion am sut y gall cwsmer gysylltu â'r gweithredwr os bydd angen gwneud cwyn ynghylch contract llogi neu gontract honedig i logi sy'n ymwneud â'i fusnes neu sy'n deillio ohono, yn cael eu harddangos ar wefan y gweithredwr, ar app trefnu teithiau'r gweithredwr neu os nad oes llwyfan trefnu teithiau ar-lein, yn y swyddfa trefnu teithiau.
- 2.6 Pan fydd cwyn yn dod i law'r Awdurdod Trwyddedu, rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth a/neu ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol a wneir gan swyddog awdurdodedig neu swyddog heddlu mewn perthynas â'r gŵyn
- 2.7 Rhaid i'r Gweithredwr roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu o fewn **48 awr** os yw wedi derbyn cwyn am yrrwr a weithredir ganddo pan nodwyd bod y gŵyn yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:
- a) honiadau o gamymddwyn rhywiol (gan gynnwys defnyddio iaith rywiol)
 - b) ymddygiad hiliol
 - c) trais (gan gynnwys ymddygiad ymosodol geiriol)
 - d) anonestrwydd gan gynnwys lladrad
 - e) Torri rheolau cydraddoldeb

- f) unrhyw gamymddwyn difrifol arall (gan gynnwys, er enghraifft; gyrru'n beryglus neu yfed a gyrru).

3. Cofnodion Gyrrwr a Cherbydau

- 3.1 Rhaid i'r Gweithredwr gadw a diweddarau'r cofnodion canlynol y mae'n rhaid iddynt fod ar gael ar unwaith i'w harchwilio ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl yr heddlu:
 - a) enw a chyfeiriad cartref pob gyrrwr cerbyd llogi preifat a weithredir ganddo;
 - b) manylion gan gynnwys rhif trwydded a dyddiad dod i ben trwydded gyrrwr llogi preifat pob gyrrwr cerbyd llogi preifat a weithredir ganddo;
 - c) enw a chyfeiriad cartref perchennog pob cerbyd llogi preifat a weithredir ganddo;
 - d) manylion gan gynnwys rhif plât trwydded llogi preifat a dyddiad dod i ben a rhif cofrestru pob cerbyd llogi preifat a weithredir ganddo;

4. Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

- 4.1 Rhaid i bob ymgeisydd am grant neu adnewyddiad trwydded Gweithredwr Llogi Preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (wedi'i ddyddio o fewn mis i'r cais) er mwyn bodloni'r awdurdod eu bod yn berson 'addas a phriodol'. Yn achos ceisiadau gan gwmni neu sefydliad, rhaid i holl gyfarwyddwyr y cwmni/sefydliad ddarparu datgeliad sylfaenol. Caiff cost y gwiriadau hyn eu talu gan yr ymgeisydd/deiliad y drwydded.
- 4.2 Ar ôl rhoi trwydded, rhaid i ddeiliaid trwydded gyflwyno datgeliad sylfaenol newydd i'r Awdurdod Trwyddedu bob blwyddyn.
- 4.3 Nid oes angen i ymgeiswyr sydd eisoes â thrwydded gyrrwr cerbyd hacni neu logi preifat gyda'r awdurdod hwn gyflwyno'r datgeliad sylfaenol yn rhan o'u cais am drwydded gweithredwr llogi preifat. Nid oes angen i ddeiliaid trwydded sy'n parhau â thrwydded gyrrwr cerbyd hacni neu logi preifat gyda'r awdurdod hwn gyflwyno datganiad sylfaenol bob blwyddyn.
- 4.4
 - a) Rhaid i'r gweithredwr weld tystysgrif sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (wedi'i ddyddio o fewn mis i'r gwiriad) unrhyw staff sydd â mynediad at gofnodion archebu neu gerbydau danfon.
 - b) Rhaid i'r gweithredwr gadw cofrestr o'r holl staff o'r fath a fydd yn cynnwys cofnod o ba bryd y mae pob gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gynnal. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w archwilio ar gais swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu. Dylai'r gofrestr gynnwys y canlynol:
 - i. y dyddiad y dechreuodd cyflogaeth y person hwnnw yn y rôl honno
 - ii. y dyddiad y gwiriodd y gweithredwr dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
 - iii. enw'r person a archwiliodd dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
 - iv. Y dyddiad y peidiodd y person hynny â chyflawni'r rôl honno.
 - c) Rhaid cadw'r gofrestr am 6 mis yn unol â'r cofnodion archebu.

d) Os bydd cyflogai yn peidio â bod ar y gofrestr ac yn ddiweddarach yn ailymuno â'r gofrestr, dylai'r gweithredwr weld tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sylfaenol newydd (neu ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddarau).

- 4.5 Pan fo'r ymgeisydd/gweithredwr yn cyflogi neu'n bwriadu cyflogi personau sy'n ymwneud â chymryd archebion neu anfon cerbydau, rhaid i'r gweithredwr lunio polisi ar gyflogi cyn-droseddwr yn y rolau hynny. Rhaid i'r polisi fod ar gael i'w archwilio ar gais swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.
- 4.6 Rhaid i'r Gweithredwr ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff a gyflogir i gymryd archebion neu i ddanfôn cerbydau rhoi gwybod iddynt o fewn 48 awr am unrhyw euogfarn, rhwymo drosodd, rhybudd, cerydd neu arestiad am unrhyw fater troseddol tra byddant yn cael eu cyflogi yn y rôl hon.
- 4.7 Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod gan unrhyw swyddogaethau archebu a danfon ar gontract allanol fesurau diogelu digonol ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Rhaid i'r gweithredwr fod wedi gofyn am dystiolaeth o hyn gan y cwmni cyn rhoi'r swyddogaethau hyn ar gontract allanol.

5. Hysbysiad o Euogfarnau

- 5.1 Rhaid i ddeiliad y drwydded roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu **o fewn 48 awr** am unrhyw euogfarn, rhwymo drosodd, rhybudd, cerydd neu arestiad am unrhyw fater troseddol neu fodurol (p'un a yw wedi'i gyhuddo neu beidio) yn ystod cyfnod y drwydded ynghyd â manylion llawn y mater(ion).

Yr hyn y mae'n rhaid rhoi gwybod amdano:-

- a) Unrhyw euogfarn (mater troseddol neu fodurol);
- b) Unrhyw rybudd (a roddwyd gan yr Heddlu neu unrhyw asiantaeth arall);
- c) Gwŷs Llys Ynadon sydd wedi'i chyhoeddi yn eich erbyn;
- d) Hysbysiad cosb benodedig sydd wedi'i gyhoeddi i chi am unrhyw fater
- e) Unrhyw aflonyddu neu fath arall o rybudd neu orchymyn o fewn y gyfraith droseddol gan gynnwys gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu debyg;
- f) Arestwyd am unrhyw drosedd (p'un a ydych wedi eich cyhuddo neu ddim);
- g) Unrhyw ryddfarn yn dilyn achos troseddol a glywyd gan lys;
- h) Unrhyw fath o drwydded a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod rheoleiddio arall neu unrhyw drwydded sydd wedi'i gohirio, ei dirymu neu heb ei hadnewyddu.

6. Safleoedd Busnes

- 6.1 Rhaid i'r Gweithredwr roi i'r Awdurdod Trwyddedu gyfeiriad y safle o fewn ardal yr Awdurdod Trwyddedu y bydd y busnes yn ei weithredu ohono.
- 6.2 Rhaid cadw safle'r gweithredwr yn lân, yn ddigon twym ac wedi'i awyru a'i oleuo'n ddigonol os bydd y cyhoedd yn ei ddefnyddio.
- 6.3 Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod digon o seddi mewn unrhyw ardal aros ar gyfer darpar logwyr a bod yr ardal aros honno ar wahân i unrhyw ardal orffwys i yrwyr neu ystafell weithredu.

- 6.4 Rhaid arddangos trwydded y gweithredwr llogi preifat mewn man amlwg mewn unrhyw safleoedd y mae'r gweithredwr yn gweithredu ohonynt. Dylid cuddio unrhyw fanylion personol fel cyfeiriad cartref deiliad y drwydded cyn arddangos y drwydded.
- 6.5 Bydd y gweithredwr yn rhoi copi o amodau'r drwydded hon i'r cyhoedd ar gais.

7. Cofnodion Trefnu Teithiau

- 7.1 Rhaid i'r gweithredwr gadw cofnod o bob taith logi preifat a drefnir naill ai'n ysgrifenedig mewn llyfr cadarn addas sydd â thudalennau wedi'u rhifo neu ar system trefnu teithiau ar gyfrifiadur. Os defnyddir llyfr, rhaid i bob cofnod fod yn glir, yn Saesneg ac yn hawdd ei ddarllen, heb unrhyw fylchau rhwng y llinellau na thudalennau gwag. Os defnyddir system trefnu teithiau ar gyfrifiadur, rhaid iddi allu argraffu unrhyw gofnodion y gofynnir amdanynt gan swyddog awdurdodedig neu gwnstabl yr heddlu bob amser.
- 7.2 Ar gyfer yr holl deithiau a drefnir, rhaid creu cofnod yn y llyfr cofnodion neu ar y system trefnu teithiau ar gyfrifiadur a fydd yn cynnwys:
- a) Enw'r person sy'n gwneud y cofnod (os nad yw wedi'i wneud gan system gyfrifiadurol)
 - b) Yr amser a'r dyddiad y cafodd y daith ei threfnu ac
 - c) Enw'r unigolyn y cafodd y daith ei threfnu ar ei gyfer
 - d) Manylion cyswllt y person y gwnaed yr archeb ar ei gyfer (cyfeiriad e-bost neu rif ffôn)
 - e) Yr amser a'r man casglu y cytunwyd arnynt, neu, os oes mwy nag un, yr amser a'r man y cytunwyd arnynt ar gyfer y casgliad cyntaf
 - f) Y gyrchfan – dylai hyn gynnwys enw'r stryd a/neu'r adeilad a'r ardal bost o leiaf. Lle y bo'n bosibl, dylai gynnwys cod post llawn.
 - g) Yr amser y cwblhawyd y daith
 - h) Cyfanswm cost y daith wedi'i chwblhau
 - i) Enw gyrrwr y cerbyd hacni/llogi preifat
 - j) Rhif trwydded y gyrrwr cerbyd hacni/llogi preifat
 - k) Rhif cofrestru'r cerbyd a ddefnyddiwyd ar gyfer y daith
 - l) Enw unrhyw unigolyn a ymatebodd i'r cais archebu
 - m) Enw'r person a anfonodd y cerbyd (os na chafodd ei anfon gan system gyfrifiadurol)
 - n) Os yw'n berthnasol, enw'r gweithredwr arall y derbyniwyd y daith a drefnwyd ganddo a / neu y cafodd y daith a drefnwyd ei hisgontractio iddo.
- 7.3 Rhaid gwneud unrhyw ddiwygiad i'r cofnod gwreiddiol drwy ychwanegiad.
- 7.4 Rhaid cadw holl gofnodion teithiau llogi preifat a drefnwyd, p'un a ydynt yn cael eu cadw mewn llyfr neu ar fformat digidol, am o leiaf 6 mis o ddyddiad y cofnod diwethaf a bod ar gael yn hawdd er mwyn eu rhoi i swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl yr heddlu i'w harchwilio ar unrhyw adeg yn ystod yr oriau gweithredu.

8. Data Personol

- 8.1 Rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw ddata personol a ddygwyd neu a gollwyd mewn ffordd arall yn ysgrifenedig o fewn 24 awr gan roi gwybod yn syth i'r heddlu os amheuir eu bod wedi'u dwyn. Nodwch, efallai y bydd angen i chi hefyd roi

gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y data a gollwyd, i gael mwy o wybodaeth ewch i: <https://ico.org.uk/for-organisations/report-a-breach/>

9. Oriau Gwaith

- 9.1 Rhaid i'r gweithredwr gymryd camau i sicrhau nad yw gyrrwyr yn gweithio oriau rhy hir. Ni ddylid caniatáu i yrwyr yrru am fwy na 10 awr y dydd a rhaid iddynt gael egwyl sy'n para o leiaf 30 munud ar ôl gyrru am 5.5 awr. Rhaid i'r gyrrwr hefyd gael egwyl ar ddiwedd y cyfnod hwn, oni bai bod ei ddiwrnod gwaith wedi dod i ben.

10. Yswiriant

- 10.1 Rhaid i weithredwyr sicrhau bod y canlynol ar waith trwy'r amser ar gyfer yr holl gerbydau llogi preifat a weithredir: polisi yswiriant ar gyfer cludo teithwyr sydd wedi llogi cerbyd neu archebu cerbyd ymlaen llaw'n unig neu ar gyfer unrhyw ddiogelwch yn unol â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.
- 10.2 Rhaid bod Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gan unrhyw safle y gall aelodau o'r cyhoedd ei ddefnyddio.
- 10.3 Pan fo cerbyd wedi'i yswirio gan bolisi yswiriant fflyd, rhaid i weithredwyr sicrhau bod gyrrwyr yn ymwybodol o gynnwys y polisi, gan gynnwys ei gyfyngiadau a'i eithriadau. Rhaid i'r gweithredwr gadw cofnod, wedi'i lofnodi gan y gyrrwr, yn ffeil gofnodion pob unigolyn pan fydd hyn wedi'i gwblhau. Rhaid rhoi copi o gofnodion unigolyn i unrhyw swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu pan fydd yn gofyn am hynny.

11. Rhannu teithiau/Rhannu cerbydau

- 11.1 Ni chaniateir Rhannu Teithiau/Rhannu Cerbydau.

12. Safonau Gwasanaeth

- 12.1 Rhaid i'r gweithredwr ddarparu gwasanaeth prydol, effeithlon a dibynadwy i aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol ac at y diben hwn rhaid iddo'n benodol:
- a) Ddarparu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cyfleusterau a staff digonol, fel y bo'n briodol.
 - b) Sicrhau'r lefel uchaf o wasanaeth a gofal i gwsmeriaid.
 - c) Pan fydd cerbyd llogi preifat wedi'i logi i fod mewn lleoliad penodol ar amser penodol, sicrhau y bydd y cerbyd, oni bai ei fod yn cael ei oedi neu ei atal am reswm digonol, yn cyrraedd y lleoliad hwnnw ar yr amser penodol yn brydlon.
 - d) Sicrhau bod unrhyw gyfleusterau ffôn ac offer radio (y gallai fod angen Trwydded Radio OFCOM ar eu cyfer) yn cael eu cadw mewn cyflwr da a bod unrhyw ddiffygion yn cael eu hatgyweirio'n brydlon.

13. Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus

- 13.1 Ni cheir defnyddio Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus i gyflawni taith logi preifat a drefnwyd, oni bai y ceir cydsyniad ar sail gwybodaeth y llogwr.

Nodiadau

- I. Dylid darllen yr amodau hyn ar y cyd â darpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
- II. Rhaid i weithredwyr gynnal eu busnes yn unol â'r holl ddarpariaethau statudol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles, deddfwriaeth amgylcheddol a deddfwriaeth cydraddoldeb.
- III. Rhaid i'r Gweithredwr beidio â methu na gwrthod derbyn archeb gan neu ar ran person anabl yng nghwmni 'ci cymorth' pan mai'r rheswm dros fethu neu wrthod ei dderbyn yw bod y person anabl yng nghwmni 'ci cymorth'.
- IV. Bydd methu â datgan unrhyw euogfarn o fewn yr amserlen ofynnol ynghyd â natur yr euogfarn yn cael ei ystyried wrth benderfynu a yw deiliad trwydded yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni/llogi preifat. Gallai hyn arwain at atal neu ddirymu trwydded gyrrwr llogi preifat neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr llogi preifat.
- V. **Gallai torri'r amodau trwyddedu arwain at atal neu ddirymu'r drwydded.**
- VI. Caiff unrhyw unigolyn a dramgwyddir gan unrhyw amodau a nodir yn y drwydded apelio i lys ynadon o fewn 21 diwrnod i gyhoeddi'r drwydded.
- VII. Dylai'r drwydded gael ei hadnewyddu ymlaen llaw i sicrhau dilyniant. Nid oes cyfnod gras awtomatig. Mae defnyddio cerbydau llogi preifat heb eu trwyddedu yn drosedd.
- VIII. Rhaid i bob gweithredwr gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a dylid ei gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth